Electrical Safety First
Arbenigwyr diogelwch trydanol y DU

# ELECTRICAL SAFETY FIRST:
# **GWELLA DIOGELWCH TRYDANOL AC ATAL TANAU YNG NGHYMRU**





# CYNNWYS


**01.** CRYNODEB WEITHREDOL 3

**02.** ARGYMHELLION 4

**03.** CYD-DESTUN GWAITH POLISI A LOBÏO ESF YNG NGHYMRU 6

**04.** RHOI'R ARGYMHELLION AR WAITH – HYFFORDDIANT A MATERION ARIANNU 8

**05.** TAI YN NE CYMRU 9

**06.** GRANTIAU AR GYFER DIOGELWCH TRYDANOLYNG NGHYMRU 11

**07.** CYLLIDO GRANT GOFAL A THRWSIO - ASTUDIAETH ACHOS 12

**08.** GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU - GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH 15

**09.** CASGLIAD ELECTRICAL SAFETY FIRST A PHWYNTIAU TRAFOD 16

**10.** ATODIADAU 18



**Electrical Safety First**

**Swyddfa Llundain**
45 Great Guildford Street
London SE1 0ES

Rhif Ffôn: **+44(0)203 463 5100**
Ebost: **enquiries@electricalsafetyfirst.org.uk**

# 01.

# CRYNODEB WEITHREDOL

**Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd adroddiad gan Lywodraeth Cymru o'r enw: Tanau Trydanol yng Nghymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth**[i], ac roedd Electrical Safety First (ESF) wedi croesawu'r cam cyntaf hwn o ganfod pa ffynonellau tanio trydanol sy'n aros ar lefelau uwch yng Nghymru, ac yn arbennig yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. **Mae'r papur hwn yn cofnodi ymateb ESF ac yn trafod materion polisi sy'n deillio o hynny a fydd yn canolbwyntio ein gwaith gyda rhanddeiliaid yng Nghymru**.

**Mae adroddiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yng Nghymru yn parhau i ostwng, ond mae tanau sydd â ffynhonnell ddosbarthu drydanol wedi parhau i gynyddu yn y 15 mlynedd diwethaf. Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sydd wedi cael y cynnydd mwyaf**[ii]. Mae'r Llywodraeth yn mynd ymlaen i awgrymu eu bod wedi canfod bod y cynnydd yn ymwneud â thanau dosbarthu trydanol yn hytrach nag offer trydanol neu ddyfeisiau symudol. At hynny, nid oedd y Llywodraeth yn gallu nodi achos y cynnydd[iii].

Er bod ESF yn croesawu parodrwydd y Llywodraeth i gynnal yr adolygiad hwn, credwn fod yr ymchwil hyd yma yn codi cwestiynau ychwanegol ac yn amlygu'r ffaith y gall fod angen rhagor o waith ymwybyddiaeth diogelwch a gall fod angen systemau gwell ar waith i ddiogelu'r cyhoedd yng Nghymru[iv].

Mae ESF yn parhau i bryderu am ddiogelwch trydanol yng Nghymru a'r tanau sy'n cael eu hachosi gan ddosbarthiad trydanol. Credwn fod angen i'r argymhellion a geir yn adroddiad y Llywodraeth gael eu cyllido'n llawn, bod yn ymarferol a bod modd eu haddasu er mwyn sicrhau bod tanau'n cael eu lleihau drwy strategaeth genedlaethol sy'n cynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Mae ESF yn credu bod angen gwneud mwy o ymchwil i danau dosbarthiad trydanol yn Ne Cymru oherwydd oedran y stoc tai, yn enwedig yn ardal Cymoedd y De. Mae oedran y gosodiadau posibl o ddiddordeb arbennig; ond mae yna ddiffyg data ar gael i gefnogi'r ddamcaniaeth hon gan nad yw'r System Adrodd Digwyddiadau yn cofnodi oedran yr eiddo.

Cefnogir ystyried oedran tai gan dystiolaeth anecdotaidd y mae ESF wedi'i chael yn ystod amrywiol ddigwyddiadau allgymorth yn Ne Cymru ac yn ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid, lle mae perchnogion cartrefi yn adrodd am broblemau i'r Elusen am oedran gosodiadau trydanol a'u hanallu i fforddio gwelliannau neu atgyweiriadau trydanol. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw systemau ar waith na mecanweithiau ariannu cynaliadwy i gynorthwyo'r perchnogion tai mwyaf agored i niwed yng Nghymru, y nodwyd bod angen gwelliannau trydanol arnynt yn eu cartrefi. Mae hyn o bosibl yn tanseilio argymhelliad Llywodraeth Cymru i leihau nifer y tanau a achosir gan ffynonellau tanio trydanol.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ranbarth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ei stoc tai hŷn a'r gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid i leihau nifer y tanau. Mae hefyd yn edrych ar y problemau polisi y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn diogelu'r cyhoedd yng Nghymru yn eu cartrefi.

i https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/fire/180716-electrical-fires-in-wales-en.pdf
ii Ibid t6
iii Ibid t2
iv https://gov.wales/newsroom/people-and-communities/2018/new-report-on-electrical-fires-released/?lang=en





# 02.

# ARGYMHELLION

## Cyfathrebu â'r Cyhoedd yng Nghymru

2.1 Dylai Llywodraeth Cymru helpu i gydlynu ymgyrch ar ddiogelwch trydanol, gyda chymorth Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a'r Elusen, gan ddilyn ymgyrch 'Mae Tân Yn Lladd' y Swyddfa Gartref. **Byddem yn argymell wythnos benodol o weithgareddau, yn debyg i 'Wythnos Diogelwch Tân Trydanol' ond yn canolbwyntio ar Gymru**.

2.2 **Mae angen i Lywodraeth Cymru roi hysbysebion yn y cyfryngau cenedlaethol ar beryglon trydanol, fel yr ymgyrch syml a wnaed gan y Swyddfa Gartref yn ddiweddar**[v]. Mae hysbysebion cenedlaethol eraill Llywodraeth Cymru ar ysmygu, rhoi organau a gofal plant eisoes yn bodoli yng Nghymru, ond mae angen mawr o hyd am ddull cydgysylltiedig o ymdrin â pheryglon trydanol, a arweinir gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Ar lefel leol, bydd yr Elusen yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i leihau nifer y tanau a achosir gan drydan, drwy godi ymwybyddiaeth drwy gefnogi ymgyrchoedd sy'n seiliedig ar bynciau (h.y. diogelwch nwyddau gwynion) cyfathrebu ar y cyd, mentrau ymchwil a digwyddiadau allgymorth priodol.

2.4 Bydd yr elusen yn parhau i feithrin perthnasoedd newydd gyda gwasanaethau tân Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gefnogi eu gwaith cyfathrebu ar faterion diogelwch trydanol ac atal tanau

# GWELLIANNAU POLISI

2.5 **Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu grant penodol i wella diogelwch trydanol yn ne Cymru ar gyfer y perchen-feddianwyr sy'n fwyaf agored i niwed, na all fforddio gwelliannau diogelwch trydanol sydd wedi'u nodi fel rhan o ymweliad diogelwch cartref y gwasanaeth tân ac achub. Bydd yr Elusen yn helpu i ddarparu cyllid wedi'i glustnodi drwy ei 'Chronfa Diogelwch Tân' i'w defnyddio yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i wella diogelwch trydanol perchen-feddianwyr sydd fwyaf mewn angen**. Gellid dewis ardal beilot gyda'r angen mwyaf am welliannau o ran diogelwch trydanol domestig. Er bod dosbarthiad trydanol wedi cael ei nodi yn Ne Cymru fel ffynhonnell allweddol o danau trydanol, mae angen dull cyfunol o leihau tanau trydanol yng Nghymru drwy waith yr Elusen, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru.

2.6 **Dylid darparu archwiliadau diogelwch trydanol ar gyfer holl aelwydydd Cymru gyda pherson dros 80 oed**. Cost y fenter hon fyddai £5 miliwn y flwyddyn ar y mwyaf, fel y manylir yn ein hadroddiad gan Brifysgol Abertawe[vi].

v https://www.gov.uk/government/news/new-campaign-warns-it-only-takes-one-accident-to-start-a-fire

vi https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/media-centre/press-releases/2017/11/older-people-in-wales-are-more-at-risk-of-electrical-fires-and-accidents/

# PARTNERIAETHAU

2.7 **Bydd yr Elusen yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod problemau diogelwch trydanol yn cael eu nodi a bod atgyfeiriadau'n cael eu gweithredu er mwyn cefnogi argymhellion y Llywodraeth**. Ar hyn o bryd, deellir nad yw materion diogelwch trydanol a nodwyd yn cael eu cyfeirio'n gywir bob tro, ac os ydynt, mae'n bosibl na fydd cyllidebau'n caniatáu gwelliannau. Gyda chynllun grant gwell, bydd angen paratoi canllawiau gwell.

2.8 **Bydd yr Elusen yn helpu i hyfforddi Swyddogion Tân i wella eu gwybodaeth am ddiogelwch trydanol yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**. Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'n iawn nad trydanwyr yw Swyddogion Tân, mae'n hanfodol bod ganddynt ymwybyddiaeth sylfaenol o beryglon trydanol a bod y data'n cael ei gasglu'n well.


# GWELL CASGLU DATA AC YMCHWIL

2.9 Er bod dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn nodi'n gywir ddosbarthiad trydanol fel problem yn Ne Cymru, mae'r elusen o'r farn na ddylem esgeuluso materion eraill. Mae'r rhain yn cynnwys camddefnyddio trydan, methiannau diogelwch cynnyrch, y nifer cynyddol o gyfarpar mewn cartrefi, cynnydd o ran gwefru cynhyrchion, yn aml wedi'u cyfuno â stoc tai a gwifrau hŷn. **Mae angen cynnal mwy o ymchwil er mwyn deall yn llawn y materion ehangach sy'n ymwneud â defnydd trydanol yn Ne Cymru. Byddwn yn anelu at weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar ymchwil posibl a dyfodol-ddiogelu data**.

2.10 Mae potensial, o ystyried oedran yr eiddo yn Ne Cymru, y gallai perchnogion tai fod yn byw mewn eiddo sydd heb yr adnoddau i ddelio â bywyd modern. **Mae diffyg data caled yn ei gwneud hi'n anodd pennu'n fanwl gywir pa eiddo a phobl sydd mewn perygl o danau a achosir gan drydan a byddem yn annog ymchwil polisi pellach rhwng yr Elusen a Llywodraeth Cymru, er mwyn caniatáu ar gyfer Llywodraeth ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth defnyddwyr wybodus o dan arweiniad rhanddeiliaid**.

2.11 Ni wyddys faint o eiddo yng Nghymru y bydd angen ailwifrio arnynt o bosibl, neu lle mae gosodiadau trydanol anniogel, gan nad yw data o Ystadegau Cymru yn darparu digon o wybodaeth. **Dylid ystyried cynnal arolwg o eiddo De Cymru er mwyn pennu maint y broblem**.

2.12 **Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar bolisi diogelwch trydanol ledled Cymru a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i leihau tanau trydanol yng Nghymru**.







# 03.

# CYD-DESTUN GWAITH POLISI A LOBÏO ESF YNG NGHYMRU

3.1 Ers 2016, mae tri phrif fater o bryder yng Nghymru wedi bod i'r Elusen, y buom yn canolbwyntio ein trafodaethau yn eu cylch gydag Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ACau) a Llywodraeth Cymru, sef:

- Tanau a achosir gan ddosbarthiad trydanol, camddefnyddio cyfarpar a diffyg gwybodaeth am danau a achosir gan eitemau trydanol y mae angen eu gwefru.
- Diogelwch tenantiaid sy'n byw yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol.
- Gwerthu nwyddau trydanol (ffug, is-safonol ac ail-law) i ddinasyddion Cymru, yn aml ar-lein, sy'n gallu bod yn anniogel neu'n anghyfreithlon. (*Mater i Lywodraeth y DU yw'r olaf)*.

3.2 Mae'r elusen wedi gwneud cynnydd o ran gwella diogelwch i ddefnyddwyr yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n byw yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol. Ond blaenoriaeth allweddol barhaus yw'r angen i ddeall pam mae mwy o danau'n cael eu hachosi gan ffynonellau tanio trydanol yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU.

3.3 Yn sgil ein lobïo yn ystod taith y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), (sef nawr y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)), mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i amddiffyn tenantiaid yng Nghymru drwy ddatgan ei bwriad i gyflwyno archwiliadau diogelwch trydanol gorfodol yn y sector preifat a'r sector rhentu cymdeithasol. Yn flaenorol, gwrthododd Llywodraeth Cymru yr angen i reoleiddio'r sectorau hynny ymhellach. Bydd y polisi hwn yn cael effaith sylweddol ar amddiffyn pobl sy'n byw yn y sectorau hynny rhag damweiniau a thanau trydanol.

3.4 O ganlyniad i drafodaethau a arweiniwyd gan yr elusen a lobïo gan Aelodau'r Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i edrych yn fanylach ar danau a achosir gan drydan yng nghartrefi Cymru. Arweiniodd hyn at waith ymchwil sylweddol ac yn sgil hynny cyhoeddiad yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru, '*Tanau Trydanol yng Nghymru - Adolygiad o'r Dystiolaeth*'[vii] .

vii https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/fire/180716-electrical-fires-in-wales-en.pdf

# Y SECTOR TAI RHENT PREIFAT YNG NGHYMRU - CYNNYDD POLISI

3.5 Wrth i'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) gael ei basio, llwyddodd yr Elusen i sicrhau bod ein gofyniad polisi - am wiriadau diogelwch trydanol gorfodol yn y sector tai rhent preifat yng Nghymru - wedi dod i fodolaeth. I gychwyn, roedd Llywodraeth Cymru yn anghytuno bod angen gwella rheoliadau.

3.6 O ganlyniad i gymorth gan Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, lobïodd yr elusen i sicrhau bod gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol yn cael eu cynnwys fel rhan o ofynion addasrwydd i bobl fyw yn y Bil.

3.7 Roedd llawer o'n pryderon yn ymwneud â stoc tai o ansawdd gwaeth yn y sector rhentu preifat yng Nghymru, yn enwedig yn Ne Cymru. Mae gan yr ardal hon grynhoad uchel o dai teras sy'n dyddio o ganol y 1850au ymlaen.

3.8 Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r elusen yn aros am gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Ond mewn cyfarfod o'r grŵp gweithredu Rhentu Cartrefi (Cymru) ym mis Medi 2018, cadarnhawyd bwriad y Llywodraeth i fwrw ymlaen â gwiriadau gorfodol, ond nid yw dyddiad gweithredu wedi'i gyhoeddi eto.

# LLEIHAU TANAU SY'N CAEL EU HACHOSI GAN DRYDAN YNG NGHYMRU - CYNNYDD POLISI

3.9 Mae trydan yn achosi mwy na hanner y tanau mewn tai yng Nghymru bob blwyddyn ac roedd 42% o danau damweiniol mewn tai a achoswyd gan gyflenwad tanwydd diffygiol yng nghartrefi Cymru yn cael eu tanio gan ffynhonnell drydanol[viii]. Ers 2015, mae'r elusen wedi galw am strategaeth gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y tanau trydanol domestig damweiniol ddeg y cant, dros y pum mlynedd nesaf.

3.10 Ar ôl lobïo trawsbleidiol llwyddiannus o ran gwleidyddion y Cynulliad Cenedlaethol, sicrhawyd diddordeb mewn trafodaeth gan Dawn Bowden AC (*Llafur, Merthyr Tudful a Rhymni*) yn y Cynulliad ar danau trydanol ym mis Mai 2017.

3.11 Yn ystod y ddadl, gofynnodd Ms. Bowden AC am ystyriaeth i drefn reoleiddio ar gyfer profion trydanol yn y sector rhentu preifat, ymchwil pellach i achosion tanau ac ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus wedi'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru ar atal tanau trydanol. Mae'r olaf yn ddisgwyliad allweddol i'r Elusen ar Lywodraeth Cymru, sy'n berthnasol i amddiffyn pobl ledled Cymru ac nid dim ond yn Ne Cymru.

viii http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-fire-statistics-2015-16-en.pdf







# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL ADRODDIAD LLYWODRAETH CYMRU YW[IX]:

- Mae wedi nodi bod y cynnydd mewn tanau trydanol yn ymwneud â dosbarthiad trydanol yn Ne Cymru, yn hytrach nag offer trydanol neu ddyfeisiau symudol.
- Ymddengys fod y cynnydd hwn yn broblem benodol yn rhanbarth De Cymru. O'r data a ddadansoddwyd, nid yw'n ymddangos bod tueddiad tebyg yn yr Alban, Lloegr na rhannau eraill o Gymru.
- Mae'r adroddiad yn credu bod gan Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru (ATAau) rôl allweddol i'w chwarae i atal tanau a achosir gan ddosbarthiad trydanol, drwy rannu cyngor yr elusen[x] . Cytunwn â'r dull hwn, gan fod swyddogion tân yn cynrychioli gwasanaeth cyhoeddus y gellir ymddiried ynddo – yn fwy felly efallai na gosodwyr trydanol unigol.
- Mae adolygiad tystiolaeth yr adroddiad yn sôn am oedran tai[xi] a thanau trydanol yn digwydd yn bennaf mewn gosodiadau trydanol yn hytrach na chyfarpar. Ystyriwn fod hyn yn arwyddocaol o ystyried peth o'r dystiolaeth anecdotaidd a gawsom yn ystod digwyddiadau allgymorth yn Ne Cymru, lle y mae'r cyhoedd wedi dweud wrthym am eu pryderon ynghylch oed eu gwifrau a'u hanallu i fforddio gwelliannau neu atgyweiriadau trydanol.

# 04.

# RHOI'R ARGYMHELLION AR WAITH – HYFFORDDIANT A MATERION ARIANNU

4.1 Yn ei adroddiad, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o argymhellion ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub, gan gynnwys ailfywiogi eu negeseuon diogelwch tân trydanol a dweud y dylai pob cartref sy'n profi tân dosbarthu trydanol gael dilyn yr ymweliad Diogel ac Iach. Mae'r Elusen yn cefnogi hyn, gan mai Awdurdodau Tân ac Achub yw'r gwasanaeth 'y gellir ymddiried ynddo' i wneud y gwaith hwn.

---

ix ttps://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/fire/180716-electrical-fires-in-wales-en.pdf
x https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/guidance/safety-around-the-home/
xi https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/fire/180716-electrical-fires-in-wales-en.pdf p12

4.2 Er bod Llywodraeth Cymru yn dweud bod diogelwch trydanol yng Nghymru yn flaenoriaeth[xii], nid oes grant penodol ar gael gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch trydanol i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae hyn yn peri pryder arbennig i berchnogion cartrefi nad ydynt yn gallu fforddio gwelliannau trydanol.

4.3 Mae angen rhoi sylw pellach i'r system atgyfeirio o ran Ymweliadau Diogelwch yn y Cartref ac ymddengys fod angen ei gwella'n sylweddol. Os bydd yr Awdurdodau Tân yn nodi materion diogelwch mewn eiddo domestig y mae angen gwaith trydanol arnynt, pwy caiff pobl eu cyfeirio atynt? Beth os na all perchennog y tŷ fforddio gwneud y gwelliannau a argymhellir? Gallai hyn olygu nad yw prosesau atgyfeirio'n gweithio'n iawn ac felly mae'r argymhellion a awgrymwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru yn disgyn ar y rhwystr cyntaf.

4.4 Yn aml, nid yw asiantaethau Gofal a Thrwsio yn nodi gwaith trydanol sydd ei angen nes bod asesiad o waith arall wedi'i wneud – h.y. efallai y bydd angen gwneud gwaith trydanol cyn y gall gwaith adeiladu arall ddechrau. Gall hyn greu problemau gyda chyllidebau, gan yn aml gall gwaith trydanol mawr ddefnyddio'r gyllideb gyfan.

4.5 Mae angen hyfforddi Swyddogion Tân i nodi risgiau diogelwch trydanol yn ystod ymweliadau diogelwch yn y cartref. Barn yr elusen yw gall fod cydberthyniad rhwng tanau dosbarthiad trydanol ac oedran yr eiddo, gan y bydd gosodiadau trydanol yn dirywio dros amser.

4.6 Mae elfen diogelwch trydanol Ymweliad Diogelwch yn y Cartref yn ymdrin â phrofion gweledol yn unig, a rhaid iddynt gystadlu â materion eraill, megis tripiau, llithro a chwympo ac ati. Os yw uned defnyddwyr, er enghraifft, mewn cwpwrdd ni fydd hyn fel arfer yn rhan o'r asesiad.

# 05.

# TAI YN NE CYMRU

5.1 Mae'r Elusen yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i ragdybiaeth y gallai hen stoc tai, ynghyd â gwifrau gwael a diffyg 'dyfodol-ddiogelu', o bosibl achosi tanau dosbarthiadau trydan.

5.2 Mae gan De Cymru gryn dipyn o stoc tai hŷn, rhyng-gysylltiedig, gyda lleoedd agored mewn atigau, lle gallai tanau ymledu'n hawdd. At hynny, disgwylir i'r seilwaith trydanol yn y stoc dai yn Ne Cymru ymgymryd â thasgau modern o ddydd i ddydd nad oedd wedi'u cynllunio ar eu cyfer o bosibl. Gallai'r Elusen, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tân ac Achub, yn enwedig yn Ne Cymru, ddatblygu mentrau i leihau'r perygl hwn.

5.3 Yn ôl y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, mae tai a adeiladwyd cyn 1919 yn wynebu mwy o risg o danau. Yng Nghymru, cafodd 26% o dai eu hadeiladu cyn 1919, ond yn yr Alban mae hyn ar ganran o 20% ac ar ganran o 21.2% yn Lloegr. Gan edrych ar eiddo hŷn yn gyffredinol ar draws y DU, mae 36% yn dyddio'n gyffredinol o amser cyn 1945, ac o'r rheini, adroddwyd bod gan 34% berygl categori 1 dan y System Raddio Iechyd a Diogelwch Tai[xiii].

xii https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-east-wales-42077549
xiii https://gov.wales/statistics-and-research/welsh-housing-conditions-survey/?lang=en







5.4 Wrth edrych yn fanylach ar y ddamcaniaeth oedran tai mewn perthynas â De Cymru, roedd degfed ran o'r tai yn dyddio o 1875 neu'n hŷn a thraean wedi'i hadeiladu cyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Canfu Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017/18 fod 28% o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tŷ teras[xiv].

5.5 O Gyfrifiad 2011, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Chaerffili sydd â'r nifer uchaf o dai teras, yn y drefn honno, o'r 10 ardal awdurdod lleol yn Ne Cymru. **Yn ôl poblogaeth, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful sydd â'r gyfran uchaf o dai teras. [Atodiad A]**

5.6 Mae gosodiadau trydanol domestig, a osodwyd yn y 1950-60s ac y disgwylir iddynt bellach gwrdd â'r defnydd modern o gartrefi, yn peri pryder. Yr hyn sy'n anodd ei ganfod yw'r dadansoddiad o danau yn ôl daliadaeth. Ar y sail y bydd pobl sy'n byw yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol yn Ne Cymru yn cael gwiriadau diogelwch trydanol cyn bo hir, mae'n debygol mai'r rhai sy'n byw yn y sector perchen-feddianwyr yn y rhanbarth fydd y mwyaf agored i niwed, o gofio y gallai'r ddemograffeg hŷn a pherchentyaeth fod yn gyfystyr â diffyg gwaith trwsio oherwydd bod y perchennog 'yn gyfoethog o ran asedau ac yn dlawd o ran arian'.

5.7 Dylid hefyd ystyried cyflwr y gosodiadau trydanol presennol ledled Cymru o safbwynt diogelu at y dyfodol. Mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio trydan yn eu cartrefi wedi newid yn ddramatig ers i'r rhan fwyaf o gartrefi Cymru gael eu dylunio a'u hadeiladu ac mae datblygiadau technolegol yn golygu mai dim ond cyflymu y gall hyn ei wneud.

5.8 Mae'n bosibl bod gosodiadau trydanol a ddyluniwyd ac a osodwyd cyn defnyddio offer trydanol domestig yn barod yn annigonol i ddelio â phatrymau defnydd cyfredol. Un arwydd o hyn yw mynychder ceblau estyniad mewn llawer o aelwydydd lle nad oes digon o socedi. Bydd hyn yn gwaethygu os a phan fydd cerbydau trydan personol yn dod yn gyffredin. Mae gosod paneli solar ac unedau storio ynni cartref unigol hefyd yn dueddiad rhagweladwy a fydd yn achosi problemau - hyd yn oed ar gyfer gosodiadau trydanol presennol sydd mewn cyflwr da. Bydd hyn yn digwydd yn ogystal â'r nifer cynyddol o declynnau trydanol y bydd pobl yn gweld eu bod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd modern.

5.9 Bydd cartrefi sydd nid yn unig heb osodiad trydanol modern ond sydd hefyd mewn cyflwr gwael yn arbennig o anodd a chostus i godi i safon ofynnol er mwyn cadw i fyny â datblygiadau yn y dyfodol. Bydd methu â gweithredu nawr yn arwain at fwy o gostau ac aflonyddwch yn y dyfodol - efallai hyd yn oed yn arwain at 'effaith lusgo' ar nifer fawr o'r stoc dai bresennol ac economïau lleol cysylltiedig. Rhaid i dai fod yn ddiogel ac yn gynnes, ond mae hefyd yn sbardun allweddol i'r economi. Gall methu â darparu cartrefi â'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer y dyfodol ond cael effaith andwyol.

5.10 Gan dybio bod tlodi'n effeithio ar y gallu i dalu am welliannau trydanol yn y cartref, ystyriwyd cyfraddau diweithdra a nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol, er mwyn pennu lle mae'r amddifadedd mwyaf yn Ne Cymru. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Caerffili a Rhondda Cynon Taf sydd â'r cyfraddau diweithdra uchaf, yn y drefn honno. Yn yr un modd, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chaerffili sydd â'r nifer uchaf o hawlwyr budd-daliadau sydd allan o waith.

5.11 Gan ystyried yr uchod, (1) Rhondda Cynon Taf a (2) Caerffili yw'r ardaloedd sydd fwyaf agored i niwed yn Ne Cymru, ac yna (3) Blaenau Gwent, (4) Merthyr Tudful a (5) Chaerdydd.

xiv Ibid



# 06.

# GRANTIAU AR GYFER DIOGELWCH TRYDANOL YNG NGHYMRU

6.1 Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw grantiau penodol ar gyfer diogelwch trydanol yng Nghymru. I gyd sydd ar gael yw £67.5 miliwn o Gynlluniau Troi Tai'n Gartrefi, Gwella Cartrefi a Benthyciadau Canol Tref[xv]. Felly byddai'n rhaid i unrhyw waith diogelwch trydanol gael ei dalu o'r cynlluniau hynny.

6.2 Mae'r gyllideb yn cyfrif am £3.06 miliwn fesul awdurdod lleol yng Nghymru, neu £30.68 miliwn yn Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Felly, byddai'n rhaid i ddiogelwch trydanol gystadlu â gwelliannau eraill i adeiladau o'r gyllideb hon. D**im ond £139 a allai fod ar gael fesul cartref teras yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar gyfer gwelliannau diogelwch trydanol o grantiau cyfredol**[xvi]. Mae'r Elusen yn credu bod hyn yn druenus o annigonol.

6.3 Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod 1-2% o dai yn wynebu risg uwch na'r cyffredin o ran diogelwch trydanol[xvii], o ganlyniad efallai y bydd angen ail-wifrio tua 5,000 o dai teras yn Ne Cymru. Ymddengys nad yw grantiau ar gyfer diogelwch trydanol drwy gyllid presennol Llywodraeth Cymru yn cefnogi delio â gwaith trydanol mawr ar gyfer y rhai sydd ag adnoddau cyfyngedig, felly mae angen edrych yn fanylach ar hyn.

6.4 Er mwyn canfod i ba raddau roedd awdurdodau lleol yn Ne Cymru yn helpu i ariannu gwelliannau trydanol i'r cartref, anfonom nifer o geisiadau rhyddid gwybodaeth ynglŷn â Benthyciadau Gwella'r Cartref a'r cynllun Troi Tai'n Gartrefi.

6.5 Mae cynghorau'n pennu eu meini prawf cymhwysedd eu hunain ar gyfer Benthyciadau Gwella Cartrefi a gall unrhyw un wneud cais am y cynllun Troi Tai'n Gartrefi. Dim ond dau gyngor sydd wedi darparu unrhyw Fenthyciadau Gwella Cartrefi. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf wedi darparu benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o achosion, ni wyddys a yw'r arian hwn wedi mynd tuag at welliannau trydanol.

6.6 O ddarllen **Atodiadau B ac C** gellir gweld o dan y Grant Gwella Cartrefi mai dim ond dau awdurdod lleol a ddarparodd grant ar gyfer atgyweiriadau diogelwch trydanol - Caerffili a Bro Morgannwg. Gallai hyn gynnwys gwifrau, unedau defnyddwyr a gosodiadau newydd. Fodd bynnag, ni chafwyd rhagor o fanylion am yr arian sydd ar gael drwy'r grantiau hyn ar gyfer diogelwch trydanol. Nid oedd yr un o'r awdurdodau lleol yn gallu dweud faint oedd mewn gwirionedd yn cael ei wario yn yr achosion hyn.

xv http://cofnod.cynulliad.cymru/WrittenQuestion/77251

xvi Methodoleg: £67.5m / 22 = £30.6m x 10= £30.68m / 220259 (nifer y stoc tai teras mewn 10 ardal awdurdod lleol) = £139

xvii Derbyniwyd y wybodaeth oddi wrth Ystadegau Cymru - Arolwg o Gyflwr Trydanol a Thai – *"o ganlyniadau'r arolwg, o dan HHSRS, dim ond 1%-2% o eiddo yng Nghymru oedd yn peri risg sylweddol uwch na'r cyffredin o ganlyniad i ddiogelwch trydanol, a'i fod yn ddarlun tebyg ar draws ranbarthau'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub."*





# TROI TAI'N GARTREFI

6.7 Gofynnodd yr elusen i awdurdodau lleol yn ardal gwasanaeth tân ac Achub De Cymru am wybodaeth am grantiau diogelwch trydanol sydd ar gael drwy'r cynllun troi tai'n gartrefi a threfi. **O Atodiad D**, isod, dim ond tri awdurdod lleol oedd yn gallu cadarnhau y gallai'r gwaith trydanol ddigwydd. Methodd pob un o'r lleill â darparu unrhyw wybodaeth. Dim ond Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a ddywedodd y gallai gynnwys ailwifrio.

6.8 Mae'n amlwg nad oes gan awdurdodau lleol yr adnoddau i wella diogelwch trydanol mewn cartrefi yn Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru os nad oes gan y perchen-feddiannydd unrhyw adnoddau i wneud y gwaith hwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y mater hwn yn agosach a blaenoriaethu grant gwelliannau trydanol, gan ddechrau yn Ne Cymru, sydd wedi cael y nifer mwyaf sylweddol o danau dosbarthiad trydanol.

# 07.

# CYLLIDO GRANT GOFAL A THRWSIO - ASTUDIAETH ACHOS

7.1 O gofio nad oes unrhyw grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol yn benodol ar gyfer diogelwch trydanol, yr unig ddewis arall i'r rhai na allant fforddio gwelliannau yw cael ei gyfeirio at wasanaeth Gofal a Thrwsio. Ar hyn o bryd, mae'r Elusen yn deall bod Ymweliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi arwain at ddim un atgyfeiriad at wasanaethau Gofal a Thrwsio.

7.2 Mae'r elusen wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Gofal a Thrwsio Cymru ers 2015. Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi dosbarthu arian yr Elusen, sef cyfanswm o £20 mil hyd yma, ledled Cymru drwy weithwyr achos i bobl sydd angen gwelliannau trydanol. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffai'r Elusen ei weld yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, drwy gynllun peilot o grantiau trydanol mewn ardal awdurdod lleol dynodedig.

# LLWYDDIANNAU'R BARTNERIAETH

- Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi derbyn 39 o atgyfeiriadau cleient ac wedi dosbarthu cronfeydd ESF i 3o gleientiaid.
- Y cyllid cyfartalog a ddyfarnwyd i gleientiaid yw £263.16.

- Mae 9 o'r 13 asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi gwneud cais am gyllid ar ran cleientiaid. Cafwyd y nifer fwyaf o geisiadau oddi wrth Gaerdydd, a Chastell-nedd Port Talbot.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a gwblhawyd wedi cynnwys uwchraddio unedau daearu, bondio a defnyddwyr a gosod dyfeisiau cerrynt-weddilliol. Mae'r olaf yn ddyfais diogelwch hanfodol, sy'n torri'r cerrynt trydan er mwyn atal sioc drydanol.

7.3 Yn ôl Gofal a Thrwsio Cymru "*Mae cynllun Electrical Safety First wedi helpu i ddarparu arian y mae ei angen yn fawr ar gleientiaid hŷn sy'n agored i niwed ledled Cymru, gan eu galluogi i gadw eu cartrefi'n ddiogel. Mae gwaith gweinyddol Gofal a Thrwsio Cymru wedi caniatáu i weithwyr achos sicrhau cyllid arall yn gynt o lawer, sy'n golygu bod y canlyniad a ddymunir i'r cleient hefyd yn cael ei gyflawni'n gyflymach o lawer.*"

7.4 Darparodd Gofal a Thrwsio Cymru astudiaethau achos o gleientiaid yn amlygu'r heriau i wella diogelwch trydanol yn deillio o ddiffyg cyllid. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynrychioli problem barhaus yn ymwneud â chyllid ac yn dangos na all y perchen-ddeiliaid tlotaf fforddio gwelliannau trydanol. **Mae'r Elusen yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellid ariannu atgyweiriadau trydanol yn well, gan y bydd hyn yn ei dro yn helpu i atal tanau a achosir gan ddosbarthiad trydanol yng nghartrefi pobl yng Nghymru ac, yn yr achos hwn, De Cymru**.

# Astudiaeth achos 1

## Catherine, 62 oed, perchen-feddiannydd, yn byw ar ei phen ei hun.

Mae gan Catherine broblemau ffibromyalgia, cof ac yn ei chefn ac mae wedi cael pen-glin newydd. Ei hunig incwm yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o £146 bob pythefnos ac nid oes ganddi unrhyw gynilion.

Cafodd Catherine ei chyfeirio at ei hasiantaeth Gofal a Thrwsio Cymru leol gan asiantaeth gynghori leol ar ôl iddi gysylltu â nhw am gymorth. Roedd ganddi hen benty yng nghefn ei thŷ a oedd mewn cyflwr gwael. Roedd dŵr yn dod trwyddo pan oedd yn bwrw glaw, ac roedd hi'n poeni am y trydan. Y penty oedd lleoliad ei pheiriant golchi, a oedd, ynghyd â'r goleuadau yn y penty yn rhedeg oddi ar wifrau a cheblau estyniad o'r gegin. Roedd yr holl wifrau'n mynd yn wlyb pan oedd hi'n bwrw glaw ac roedd ganddi hefyd nifer o socedi wedi torri mewn ystafelloedd amrywiol ledled y tŷ.

Derbyniodd Gofal a Thrwsio ddyfynbris gan drydanwr cymwys i wneud y trydan yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys amnewid y socedi a ddifrodwyd a datgysylltu a gwneud y trydan yn ddiogel yn y penty, a oedd yn dod i £698. Nid oedd gan Catherine unrhyw gynilion ac roedd yn byw ar incwm isel iawn, felly bu'n rhaid i Ofal a Thrwsio wneud cais am arian elusennol/llesiannol i godi'r arian, ar gyfer atgyweiriadau, cyn i'r gwaith angenrheidiol allu mynd yn ei flaen.

Gan nad oedd gan Catherine hanes gwaith perthnasol a heb hanes gwasanaeth, roedd codi arian yn anodd iawn ac fe gymerodd dros chwe mis cyn i gais i'r Perry Fund fod yn llwyddiannus. Ar ôl cwblhau'r gwaith a amlinellwyd uchod mae'r trydan yng nghartref Catherine yn ddiogel erbyn hyn.







# Astudiaeth achos 2

## Mae Valerie, sy'n 77 oed ac yn berchen-feddianwyr, yn byw gyda'i gŵr.

Mae gan Valerie symudedd gwael, osteoporosis a hanes o gwympo. Fe'i cyfeiriwyd at ei hasiantaeth Gofal a Thrwsio leol gan berthynas bryderus. Roedd gan Valerie nifer o broblemau gyda'i chartref ond roedd yn bryderus iawn am ei gwaith trydan. Roedd ganddi hen socedi cylchol a hen uned defnyddwyr heb switsys rhyddhau.

Yn ddiweddar, cafodd Valerie ei hasesu gan therapydd galwedigaethol. Roeddent wedi dweud bod angen cawod mynediad gwastad arni a'i chyfeirio at yr awdurdod lleol o ran Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Nid oedd y gweithiau, fodd bynnag, yn gallu mynd ymlaen oherwydd cyflwr y trydan yn yr eiddo.

Hefyd, nid oedd gan Valerie wres canolog ac roedd yn dibynnu ar danau nwy i wresogi ei chartref. Roedd wedi derbyn grant gan Nyth (cynllun tlodi tanwydd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer gosod gwres canolog llawn. Ond eto, allai'r gweithiau hyn ddim mynd ymlaen oherwydd cyflwr y trydan. **Cynghorwyd ailwifrio llawn**.

Roedd partner Valerie wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, felly ystyriwyd codi arian fel opsiwn i dalu am y gwaith. Fodd bynnag, oherwydd hyd yr amser y byddai hyn yn ei gymryd a pha mor bryderus yr oedd Valerie a'i phartner ynghylch y gwaith hwn, penderfynasant fynd ar ôl Benthyciadau Gwella'r Cartref y Cyngor. O dan fenthyciad y Cyngor, cwblhawyd ailwifrio llawn, aeth grant Nest yn ei flaen wedyn i osod gwres canolog nwy llawn ac aeth y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ei flaen hefyd i osod cawod mynediad gwastad.

7.6 Ers tro byd mae'r Elusen wedi bod yn arddel y safbwynt polisi o gefnogi cyflwyno archwiliadau diogelwch trydanol i berchenogion cartrefi gydag un person dros 80 oed yng Nghymru; roedd hwn yn argymhelliad allweddol yn ein hadroddiad a gynhyrchwyd gan Brifysgol Abertawe. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn chwarae rhan hollbwysig o ran nodi namau trydanol ond mae Gofal a Thrwsio Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i dalu am welliannau trydanol, yn aml gyda chyllidebau cyfyngedig iawn. Byddai'r Elusen yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanwl ar sut y gellir darparu cyllid diogel i sicrhau bod problemau trydanol yng nghartrefi pobl yn cael eu trin ar ôl iddynt gael eu nodi; a beth sy'n digwydd os oes atgyfeiriadau wedi eu gwneud ond nad oes unrhyw adnodd yn bodoli i ymgymryd â'r gwaith.

# 08.

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU - GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

8.1 Un o brif argymhellion adroddiad Llywodraeth Cymru yw "*Dylai Awdurdodau Tân ac Achub gynnwys cyngor ar yr angen am wiriadau diogelwch trydanol yn eu hymweliadau Diogel ac Iach fel mater o drefn.*" Er bod yr elusen yn cefnogi'r argymhelliad hwn ac yn cytuno ag ef, mae nifer o bryderon yn bodoli am yr ymweliadau hyn fel y maent ar hyn o bryd, y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Er enghraifft:

- Nid yw Swyddogion Tân wedi'u hyfforddi i nodi peryglon trydanol posibl yn y cartref yn llawn ond dylent, fel y nodir yn adroddiad Llywodraeth Cymru, allu cynnal gwiriadau sylfaenol. Mae'r gwiriadau trydan a geir ar hyn o bryd ond yn rhai gweledol ac os yw'r perygl yn gudd, h.y. mewn cwpwrdd neu y tu ôl i furiau, ni sylwir arno.
- Ymweliadau Diogelwch yn y Cartref Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. **Yn 2017/18: cafwyd 17,396 o ymweliadau diogelwch yn y cartref, a nodwyd 1,028 o faterion trydanol**[xviii]. Mae hyn yn cyfateb i ond 6% o'r ymweliadau Diogelwch yn y Cartref hyn yn arwain at ganfod problem drydanol. Dylid nodi bod archwiliadau trydanol yn 'cystadlu' â mentrau pwysig eraill yn ystod yr ymweliadau hyn, megis tripiau, llithro a chwympo ac ati, ac felly nid yw'n glir a oedd mwy o faterion trydanol yn ystod yr ymweliadau hyn nad oedd nodwyd gan fod diffyg gwybodaeth neu roedd y mater wedi ei guddio oddi wrth ei olwg.
- Er mai Swyddogion Tân sy'n gyfrifol am amrywiaeth o dasgau, hwy yw'r sefydliad yr ymddiriedir ynddo i ymgymryd â'r ymweliadau hyn. Os yw Llywodraeth Cymru, fel mae'r Elusen, am i hyn fod yn flaenoriaeth, mae angen ailflaenoriaethu fel bod archwiliadau trydanol yn rhan o'r gweithgaredd hwn. Bydd angen hyfforddiant sylfaenol ychwanegol ar Swyddogion Tân i'w helpu i nodi risgiau trydanol a hefyd i gynnig cyngor ar ddyfodol-ddiogelu er mwyn cynyddu effeithiolrwydd yr ymweliadau hyn.
- Nodir bod problemau o ran cyfeirio ac atgyfeirio, yn enwedig os oes angen trydanwr ar y meddiannydd. Ni chaniateir i Swyddogion Tân argymell trydanwr, er enghraifft. At hynny, efallai na fydd cyfeiriadau at Ofal a Thrwsio yn digwydd a phan fyddant yn gwneud hynny, efallai na fydd cyllideb ar gael. **Mae angen i Lywodraeth Cymru adolygu, costio a chyllido'r rhain yn llawn**.

xviii Derbyniwyd y data oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru – Mawrth 2019







# DYFODOL-DDIOGELU

8.3 Mae'n ymddangos bod rhai paratoadau'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol yng Nghymru i helpu defnyddwyr Cymru i ddyfodol-ddiogelu, h.y. parodrwydd o ran gwefru cerbydau trydan, ond araf yw'r cynnydd hwn.

8.4 Yn dilyn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a wnaed gan yr Elusen, canfuom, o'r saith awdurdod lleol allan o naw yn ardal De Cymru a ymatebodd, mai dim ond ar y camau astudio neu gynllunio ar gyfer pwyntiau gwefru cyhoeddus y mae'r rhan fwyaf o'r rhain. Mae ond nifer isel iawn o bwyntiau gwefru'n bodoli mewn strydoedd yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn codi goblygiadau posibl y parodrwydd yn Ne Cymru ar gyfer gwefru cerbydau a'r effaith ar osodiadau trydanol domestig a gwifrau mewn eiddo[xix].


# 09.

# CASGLIAD ELECTRICAL SAFETY FIRST A PHWYNTIAU TRAFOD

9.1 O ystyried pa ddata ymchwil sydd ar gael ac yn dilyn sgyrsiau â rhanddeiliaid yng Nghymru, daw'r ESF i'r casgliad canlynol:

- Mae angen cydgysylltu cenedlaethol rhwng y Llywodraeth, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Elusen i ddeall y peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan mewn eiddo domestig yng Nghymru a sut i atal tanau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol a fydd yn gyfrifoldeb y landlordiaid ac asiantau gosod. Bydd hyn yn gwella diogelwch, gyda'r gobaith o leihau nifer y tanau a achosir gan ffynonellau tanio trydanol. Fodd bynnag, mae angen ystyried y sector perchen-ddeiliaid, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed ac sy'n dibynnu ar gymorth yr asiantaeth Gofal a Thrwsio.
- Mae argymhellion adroddiad Llywodraeth Cymru yn nodi'n briodol bod Awdurdodau Tân ac Achub yn gweithio i helpu i leihau nifer y tanau a achosir gan ffynonellau tanio trydanol yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn fod angen i'r rhain gael eu costio a'u hystyried yn llawn. Mae'n ymddangos bod tyllau polisi posibl o ran Ymweliadau Diogelwch yn y Cartref a diogelwch trydanol, cyllido atgyweiriadau, cyngor a roddir i berchnogion tai a phrosesau atgyfeirio.

xix ttps://www.electricalsafetyfirst.org.uk/media-centre/press-releases/2019/5/driven-to-danger-electric-vehicle-drivers-charging-dangerously-due-to-lack-of-public-infrastructure/



- O ystyried y dystiolaeth ynghylch cyfyngiadau cyllidebol ar gyfer diogelwch trydanol a'r diffyg grantiau sydd ar gael, mae angen canolbwyntio ar gyllido atgyweiriadau ar gyfer y perchnogion cartrefi mwyaf agored i niwed. Dylid ystyried grantiau i drwsio ac adnewyddu gosodiadau a gwifrau trydanol.
- Mae diffyg gwybodaeth a data ar danau o ran deiliadaeth, oedran tai a gwaith trwsio gofynnol. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi gwybodaeth sylweddol am nifer yr eiddo y mae angen eu hailwifrio yn Ne Cymru. Mae angen ystyried hyn fel maes gwaith â blaenoriaeth.
- Mae angen hyfforddiant ar swyddogion tân i ddarparu cyngor sylfaenol ar ddiogelwch trydanol, a dylid ystyried bod cyngor trydanol yn ystod Ymweliadau Diogelwch yn y cartref yn flaenoriaeth.
- Nid oes llawer o waith yn cael ei wneud gyda'r cyhoedd yng Nghymru ar ddyfodol-ddiogelu a pheryglon, a gallai hyn arwain at fwy o wefru domestig gyda gosodiadau nad ydynt yn briodol ar gyfer y tasgau hyn.



# 10. ATODIAD A

| Awdurdod Lleol | Poblogaeth (1) | Nifer o Dai Teras (2) | Canran y tai teras yn ôl poblogaeth | Cyfradd Di-weithdra % (3) | Hawlwyr budd-daliadau di-waith % (4) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 69,609 | 15749 | 23% | 5.6 | 16.7 |
| **Penybont-ar-Ogwr** | 144,208 | 15401 | 11% | 5 | 12.7 |
| **Caerffili** | 180,795 | 26526 | 15% | 6 | 13.5 |
| **Caerdydd** | 362,756 | 43612 | 12% | 5.7 | 10.4 |
| **Merthyr Tudful** | 59,953 | 12020 | 20% | 5.5 | 15.7 |
| **Sir Fynwy** | 93,590 | 6515 | 7% | 3.4 | 7.7 |
| **Casnewydd** | 151,485 | 20265 | 13% | 5.4 | 12.6 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 239,127 | 49322 | 21% | 5.8 | 15 |
| **Torfaen** | 92,264 | 16359 | 18% | 5.2 | 12.8 |
| **Bro Morgannwg** | 130,690 | 14490 | 11% | 3.6 | 9.7 |

Cyf:
(1) Ystadegau Cymru: Poblogaeth Ganol Flwyddyn 2017.
(2) NOMIS (yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011) Cyhoeddwyd Mehefin 2014
(3) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Mehefin-Gorffennaf 2018
(4) Ystadegau Cymru - 2016

# ATODIAD B

## Grantiau Gwella Cartrefi - Ceisiadau RhG i Awdurdodau Lleol yn ardal De Cymru

1. Faint o grantiau gwella cartrefi a gyhoeddwyd yn ardal yr awdurdod lleol dros y pum mlynedd diwethaf?
2. Pa amcangyfrif neu ffigyrau sydd ar gyfer nifer y tai teras yn ardal yr awdurdod lleol, waeth beth fo'u daliadaeth.
3. A yw'r grantiau hyn yn cwmpasu gwelliannau diogelwch trydanol mewn tai?
4. Os Ydynt oedd yr ateb i 3, beth oedd y rhain? Er enghraifft - ailweirio, ailosod socedi, newid blwch ffiws / uned defnyddwyr
5. Beth yw cyllideb yr awdurdod lleol i dalu am grantiau Gwella Cartrefi yn eich ardal chi?
6. Faint o'r grantiau hyn a roddwyd i bobl hŷn dros 65 oed - pa ffigyrau sydd ar gael?

| | Cwestiwn 1 | Cwestiwn 2 | Cwestiwn 3 | Cwestiwn 4 | Cwestiwn 5 | Cwestiwn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Dim | 52% | Ydynt | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. |
| **Penybont-ar-Ogwr** | Dim | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. |
| **Caerffili** | 534 | 26,700 | Ydynt | Gall gynnwys ail-weirio llawn, adnewyddu'r blwch ffiwsiau, daearu a bondio, adnewyddu socedi a switshis | 2018/19 yw £1,140,938 | Gwyboda-eth heb ei gofnodi |
| **Caerdydd** | Dim | Gwyboda-eth heb ei gofnodi | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. |
| **Merthyr Tudful** | Dim | 12,600 | Ni chyhoeddwyd unrhyw grantiau ers deng mlynedd | NDd.y.B. | None | Dd.y.B. |
| **Sir Fynwy** | eb ei ddar-paru | Dim ateb | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. | Dd.y.B. |
| **Casnewydd** | NDim | 38.50% | Dim ateb | Dim ateb | Dim ateb | Dim ateb |
| **Rhondda Cynon Taf** | Nid yw'r grant yn weithredol eto | 63015 | Dd.y.B. | Dd.y.B. | 15 | Dd.y.B. |
| **Torfaen** | 9 | 16,359 | Nac Ydynt | NDd.y.B. | £1,060,552 | Dd.y.B. |
| **Bro Morgannwg** | 5 | Dd.y.B. | Mae gwaith wedi cynnwys gosodia-dau trydanol cwbl newydd gan gynn-wys blwch ffiws newydd ac ati. | NDd.y.B. | £1,626,594 | NDd.y.B. |

# ATODIAD C

1. Sawl a) Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi https://llyw.cymru/y-cynllun-troi-tain-gartrefi a b) Cynlluniau Benthyciad Canol Tref sydd wedi eu cyhoeddi gan yr awdurdod lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf?
2. Pa gyllideb sydd ar gael ar gyfer a) a b)?
3. Pa welliannau diogelwch trydanol i dai yn ardal yr awdurdod lleol a ddyrannwyd o'r grantiau uchod?
4. Os oedd, beth oedd y rhain? Er enghraifft - ailweirio, ailosod socedi, newid blwch ffiws / uned defnyddwyr?

| | Cwestiwn 1 | Cwestiwn 2 | Cwestiwn 3 | Cwestiwn 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | a) 32<br>Bellach yn cael ei ddisodli gan fenthyciadau Landlord<br>b) 7 | a) £865,466<br>b) £764,286 | Dd.y.B. | Dd.y.B. |
| **Penybont-ar-Ogwr** | a)23 b)26 | a) £900,000 b) dim cyllid wedi'i osod | Gall gynnwys gwaith trydanol | gallai gynnwys ailweirio |
| **Caerffili** | Dim ymateb | | | |
| **Caerdydd** | a)56 b)Dd.y.B. | a)£3.39m | Gwybodaeth heb ei gofnodi | Dd.y.B. |
| **Merthyr Tudful** | a)11 b)1 | a) £717,520.35 b)£1,000,000 | Dim ymateb | Dim gwybodaeth ar gael |
| **Sir Fynwy** | a)3 b)1 | a) £1.2 miliwn b) £42.5 mil | Yn cynnwys gwaith ailweirio | Dd.y.B. |
| **Casnewydd** | a) 32 b)Dd.y.B. | a) £884,496 | Gwybodaeth heb ei gofnodi | Dd.y.B. |
| **Rhondda Cynon Taf** | | | | |
| **Torfaen** | a) 28 yn y pum mlynedd diwethaf<br>b) 7 yn y pum mlynedd di-wethaf | a)£1,073,525 b)£200,000 | Gwybodaeth heb ei gofnodi | Dd.y.B. |
| **Bro Morgannwg** | a)21 b)2 | a)£1626594<br>b) £1,045,665 | a) Mae gwaith wedi cynnwys goso-diadau trydanol cwbl newydd gan gynnwys blwch ffiws newydd ac ati. | Dd.y.B. |

# ATODIAD D

| Awdurdod Lleol | Pa baratoadau ydych chi'n eu gwneud fel cyngor i baratoi ar gyfer gwefru Cerbydau Trydan yn eich ardal chi? | Ydych chi'n cynllunio neu'n dechrau gwaith ar osod pwyntiau gwefru ar y stryd yn eich ardal chi? | Os ydych o ran ateb 3, faint o bwyntiau gwefru sydd wedi'u gosod hyd yma? |
|---|---|---|---|
| **Rhondda Cynon Taf** | Yn edrych i mewn i hyn | Ydym | Un |
| **Blaenau Gwent** | Wedi gosod pwyntiau gwef-ru, ond problemau â defnydd isel/fandaliaeth - dim polisi corfforaethol. | Nac ydym | 6 |
| **Sir Fynwy** | Edrych ar leoliadau, techno-leg, cyllid addas | Ydym | Dim |
| **Merthyr Tudful** | Dim | Nac ydym | 0 |
| **Penybont-ar-Ogwr** | Edrych ar asesu potensial ar gyfer Cerbydau Trydan yn lleol | Nac ydym | Dim |
| **Casnewydd** | Edrych ar safleoedd addas | Ydym | 4 |
| **Bro Morgannwg** | Sefydlu gweithgor | Nac ydym | Dd.y.B. |
| **Caerdydd** | Wedi derbyn cyllid | Ydym | - |
| **Torfaen** | Rhan o astudiaeth ranbarthol | Ydym | Pump |

